# Cam 3: Dylunio cynnyrch bwyd iach

## Amcanion dysgu

- I ddylunio iogwrt baner fwyd iachus
- I ddarllen, ysgrifennu, cyfrif a chymharu rhifau hyd at 100, gyda chefnogaeth gwrthrychau

## Trosolwg cam

Yn y cam hwn, mae'r plant yn meddwl am fwyta'n iach a'r maetholion sydd wedi'u cynnwys ym mhob grŵp bwyd. Gan ddefnyddio'r dysgu hwn, yr her iddynt wedyn yw i ddefnyddio ystod o ffrwythau tymhorol i ddylunio iogwrt baner fwyd y gallant ei werthu yn eu caffis iogwrt.

## Deunyddiau sydd eu hangen

- Templed baner fwyd Prydain

## Nodiadau cyflwyniad

| | |
|---|---|
| Sleid 2:<br>Cyflwyniad | • Defnyddiwch y cwestiynau ar y cyflwyniad i adolygu dysgu blaenorol y plant ar bwysigrwydd bwyta'n iach a chael deiet cytbwys. |
| Sleid 3-10:<br>Deiet iach a chytbwys | • Trafodwch ganllaw Bwyta'n Dda Sefydliad Maeth Prydain a defnyddiwch y cyflwyniad i ddysgu am y gwahanol grwpiau bwyd sy'n rhannau pwysig o ddeiet iach, cytbwys. |
| Sleid 11:<br>Cyflwyno'r dasg | • Cyflwyno'r dasg: bydd y plant yn gwneud iogwrt baner fwyd Prydain i'w werthu yn eu caffi iogwrt.<br>• Byddant yn defnyddio ffrwythau tymhorol Prydeinig i wneud i'w pwdin iogwrt edrych fel baner Prydain. |
| Sleid 12:<br>Bwyd tymhorol | • Atgoffwch y plant bod gwahanol ffrwythau a llysiau yn tyfu ac y gellir eu cynaeafu ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac mae bwyta bwydydd pan fyddant yn eu tymor yn golygu y gallwn gefnogi ffermwyr a thyfwyr Prydain trwy brynu eu cynnyrch.<br>• Os ydym am brynu bwyd nad yw yn ei dymor ym Mhrydain, mae'n rhaid ei fewnforio o wledydd eraill. Po bellaf y mae ein bwyd yn teithio, y mwyaf o effaith negyddol y mae'n ei gael ar yr amgylchedd.<br>• Defnyddiwch y wefan hon i rannu enghreifftiau o ffrwythau sydd yn eu tymor nawr: www.countrysideonline.co.uk/back-british-farming/cook-and-eat/the-great-british-larder/ a'u hannog i ddewis ffrwythau sydd yn eu tymor. |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.

| | |
|---|---|
| Sleid 13:<br>Cynllunio iogwrt baner bwyd | • Dosbarthwch y templedi dylunio baneri bwyd a gofynnwch i'r plant gynllunio lle byddant yn rhoi'r ffrwythau o'u dewis i ail-greu'r faner Brydeinig ar eu iogwrt.<br>• Anogwch y plant i ddisgrifio siapiau'r ffrwythau wrth iddyn nhw eu tynnu ar eu cynllun. |
| Sleid 14:<br>Rhestr siopa | • Gofynwch i'r plant gyfrif sawl un o bob ffrwyth maent eu hangen i wneud eu dyluniad ac ysgrifennu rhestr siopa o'u cynhwysion ffrwyth dewisol. |

## Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| **Maes** | **Pwnc** | **Amcan** |
|---|---|---|
| Dylunio a Thechnoleg | Dylunio | • Dylunio cynhyrchion pwrpasol, swyddogaethol, apelgar ar eu cyfer eu hunain a defnyddwyr eraill yn seiliedig ar feini prawf dylunio.<br>• Cynhyrchu, datblygu, modelu a chyfleu eu syniadau trwy siarad, darlunio, templedi a, lle bo hynny'n briodol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. |
| | Coginio a maeth | • Defnyddio egwyddorion sylfaenol deiet iach ac amrywiol i baratoi prydau. |
| Mathemateg | Rhif – adio a thynnu | • Cyfrif at ac ar draws 100, ymlaen ac yn ôl, gan ddechrau gyda 0 neu 1, neu o unryw rif penodol.<br>• Adnabod ac enwi siapiau 2D a 3D cyffredin, gan gynnwys:<br>– siapiau 2D [er enghraifft, petryalau (gan gynnwys sgwariau), cylchoedd a thrionglau]<br>– siapiau 3D [er egnhraifft, ciwboidau (gan gynnwys ciwbiau), pyramidau a sfferau]. |



© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.